

Ymateb gan y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar i Dewiniaith, Gweledigaeth Mudiad Meithrin



Amdanom

Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar yw'r elusen cenedlaethol sydd wedi ymrwymo i greu byd heb rwystrau i blant a phobl ifanc byddar.

Rydym yn cynrychioli buddianau ac yn ymgyrchu dros hawliau plant byddar a'u teuluoedd.

Noder: wrth gyfeirio at “byddar” rydym yn cyfeirio at bob lefel o golled clyw, yn cynnwys mân, cymhedrol, difrifol, llwyr a cholled clyw dros dro.

Ymateb

Croesawn y cyfle i ymateb i weledigaeth strategol Mudiad Meithrin ar gyfer 2015-2025 ac rydym yn llwyr groesawu eich amcanion craidd, gan gynnwys rhoi cyfle cyfartal i bob plentyn, beth bynnag fo'i anghenion, i fanteisio ar wasanaethau cyfrwng Cymareg yn y blynyddoedd cynnar.

Mae NDCS Cymru yn cefnogi plant byddar ar draws Cymru, beth bynnag fo'u cefndir. Rydym yn cefnogi plant byddar o deuluoedd lle'r mae'r Gymraeg yn brif iaith lafar ac hefyd rhai o deuluoedd lle nad oes Cymraeg ar yr aelwyd ond lle mae'r rhieni yn dymuno i'r plentyn byddar elwa o addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae byddardod yn anabledd llai cyffredin. Mae 1.3 o bob 1000 o fabanod yng Nghymru yn cael diagnosis eu bod yn fyddar adeg Sgrinio Clyw Newydd-anedig.¹ Mae 50% o blant byddar yn cael eu geni yn fyddar. Mae'r gweddill yn cael diagnosis yn hwyrach yn eu plentyndod neu'n mynd yn fyddar oherwydd salwch, trawma neu gyflwr genetidd.

Mae hi hefyd yn bwysig cofio y bydd 80% o blant yn profi byddardod dros dro cyn eu bod yn 10 oed. Mae hyn yn aml oherwydd clust ludiog. I rai plant gall y byddardod dros dro ddod nol a phara am rai wythnosau neu fisoedd. Gall y byddardod dros dro hwn gael effaith difrifol ar ddatblygiad a chyfathrebu'r plentyn ar adeg tyngedfennol yn eu bywyd. Felly mae'n hanfodol bod pob un sy'n gweithio mewn cylchoedd meithrin yn gallu adnabod yr arwyddion bod plentyn yn profi problemau clyw er mwyn addasu'r strategaethau cefnogi ac addysgu ac er mwyn tynnu sylw unrhyw bobl bethnasol eraill sy'n ymwneud â gofal y plentyn.

Mae byddardod mewn plentyndod yn cael effaith sylweddol ar ddysgu iaith lafar.

¹ <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/980/news/33579>

Fel arfer mae iaith yn cael ei dysgu drwy clywed a gweld gyda'i gilydd. Gall byddardod olygu oedi o ran datblygiad iaith. Gall yr oedi yma wedyn gael effaith mwy eang ar fywyd y plentyn byddar am bod iaith yn hanfodol ar gyfer datblygiad gwybyddol, emosiynol a chymdeithasol.

Mae sgrinio clyw babanod newydd-anedig a'r gwelliant sylweddol o ran technolegau clyw yn golygu bod gan lawer mwy o blant ifanc y potensial i ddefnyddio iaith lafar. Serch hynny, golyga hyn ei bod hi'n bosib nad yw eu anghenion cyfathrebu a dysgu yn gwbl amlwg yn syth: gall eglurder wrth lefaru guddio lefel eu deallusrwydd ieithyddol.

Oherwydd effaith byddardod ar ddatblygiad iaith gall plentyn ifanc ei chael yn anodd:

- gwneud synnwyr o'r hyn y mae pobl yn ei ddweud a deall yr hyn sy'n digwydd o'u cwmpas.
- dysgu meddwl drwy bethau a datrys problemau
- deall a mynegi yr hyn mae nhw'n ei deimlo a rheoli emosiynau.

Fel arfer gall technolegau clyw gynnig yr ystod clywed gorau oll mewn ardal o tua tair metr, a hynny mewn amgylchedd gwrando da. Mae hyn yn cyfyngu ar allu plant byddar i ddeall iaith lafar y tu hwnt i'r ardal hon ac mae hefyd yn cyfyngu ar fedru derbyn unrhyw ddysgu ar hap a fyddai yn eu galluogi i gaffael ac amsugno iaith a gwybodaeth newydd fel mae eu cyfoedion yn ei wneud yn naturiol. Felly mae'n debygol y bydd angen cymorth ychwanegol ar blentyn byddar i sicrhau eu bod yn gwneud yr un cynnydd a phlant eraill o oedran a gallu gwybyddol tebyg. Efallai bydd angen gosod strategaethau yn eu lle i reoli a chyfyngu ar effaith colled clyw, i ddatblygu sgiliau dysgu a sicrhau mynediad i'r cwricwlwm.

Mae gan NDCS ystod eang o adnoddau ar gael ar y wefan i gefnogi ymarferwyr blynyddoedd cynnar. Rhaid cofrestru am ddim i gael rhai adnoddau www.ndcs.org.uk

Thema 1: Datblygu ein presenoldeb ar lawr gwlad

4. Croesawn fwriad Mudiad Meithrin i fabwysiadu Strategaeth Cynhwysiant a darparu hyfforddiant fel bod staff cylchoedd meithrin yn gallu croesawu pob plentyn. Byddem yn argymhell yn gryf bod y strategaeth hon yn cynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth byddardod ar gyfer holl staff cylchoedd meithrin. Mae hyn yn hanfodol er mwyn datblygu strategaethau i gefnogi plant byddar, ac hefyd o bwysigrwydd eithriadol wrth adnabod arwyddion y gallai plentyn fod yn profi byddardod dros dro. Gall NDCS Cymru gynnig cyngor i Mudiad Meithrin yn y maes hwn. Mae Athrawon y Byddar lleol hefyd mewn sefyllfa dda i gynnig cefnogaeth a chymorth i gylchoedd meithrin unigol.

Thema 2: Meithrin a datblygu ein pobl

2. Croesawn yn gynnes y bwriad i lansio corff hyfforddi cenedlaethol Academi ac fe hoffem annog Mudiad Meithrin i ddatblygu modiwlau penodol ar anghenion dysgu plant byddar. Hoffem annog Mudiad Meithrin i weithio gydag Athrawon y Byddar sydd ag arbenigedd yn y maes hwn ac a all gynghori ar ddyfeisio strategaethau i gefnogi dysgwyr byddar.

13. Byddem yn hapus iawn i fod yn rhan o "Gyfeillion y Mudiad" a byddem yn cefnogi digwyddiad blynyddol.

Thema 4: Blaenoriaethu ansawdd a safon ein gwaith

1. Byddem yn barod iawn i gynorthwyo Mudiad Meithrin wrth adnabod grwp o arbenigwyr all helpu i wella ansawdd a chodi safon eich darpariaeth, yn enwedig yng nghyswllt anghenion plant â byddardod parhaol neu dros dro.

25. Rydym yn deall dyhead Mudiad Meithrin i gynyddu'r defnydd o Macaton yn eich gwaith. Hoffem hefyd bwysleisio na all Macaton gymryd lle iaith Arwyddion Prydeinig (BSL) lle mae BSL yw'r dull dewisol o ran cyfathrebu. Mae NDCS wedi creu ystod eang o adnoddau iaith Arwyddion Teulu sydd ar gael yma:

<http://www.familysignlanguage.org.uk/>.

Gallwn hefyd eich cyfeirio at diwtoriaid all gynnal gweithdai iaith Arwyddion Teulu yn y Gymraeg.

Thema 5: Cydweithio ag eraill i gyrraedd y nod

7. Rai blynyddoedd yn ôl cafwyd cefnogaeth gan Mudiad Meithrin i lansiad adnodd Cymraeg a grewyd gan NDCS ar gyfer meithrinfeydd cyfeillgar i'r byddar. Byddem wrth ein bodd yn cael cyfle i gydweithio yn y dyfodol i gefnogi plant byddar mewn cylchoedd meithrin a chylchoedd Ti a Fi.

Sylwadau Cloi

Fel y gwyddoch mae Llywodraeth Cymru wrthi ar hyn o bryd yn diwygio'r drefn o asesu a darparu ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Byddem yn croesawu gweld Mudiad Meithrin yn rhannu eu profiad a'u harbenigedd ym maes addysg cyn-ysgol er mwyn sicrhau bod yna ddarpariaeth addas a phwrpasol yn y Bil a'r Côt Ymarfer newydd i ddiwallu anghenion plant ag anghenion dysgu ychwanegol mewn lleoliadau cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg .

Am fanylion pellach cysyllter â:

Elin Wyn & Debbie Thomas
Swyddogion Polisi ac Ymgyrchu
NDCS Cymru
2 Cwrt Ty Nant
Treforgan
Caerdydd CF15 8LW

campaigns.wales@ndcs.org.uk

02920 373474